

Menywod a'r Rhyfel Byd Cyntaf: Y Profiad Cymreig

Ar ôl gorfod gwneud mwy o newidiadau nag a ragwelwyd, mae'r wefan Women, Wales and War/Menywod, Cymru a Rhyfel bellach yn fyw. Arni cewch fanylion am dros 120 o fenywod a merched yn, neu o, Gymru a fu'n byw, yn gweithio ac mewn rhai achosion a fu farw rhwng 1914-1919. Mae'r wefan yn ddwyieithog, a gellir ei phori trwy gyfrwng enw, lle, galwedigaeth ac yn aml achos ei marwolaeth a ble y bu farw. At hyn ceir traethodau cefndirol i roi'r cyd-destun.

Nid yw yn gyflawn o bell ffordd. Eisoes mae tua deugain enw yn aros i'w lawr lwytho (roedd yn rhaid i ni stopio'n rhywle a chreu'r safle), a gobeithiwn fod llawer o storïau eraill i'w cynnwys eto a ffotograffau hefyd. Prin y cyffyrddwyd â rhai meysydd; er enghraifft dim ond enw un heddychraig sydd gennym (Olive Francis), a fawr ddim am Fyddin Dir y Menywod. Mae'n wefan yn fyw ac arni fanylion cyswllt. Rydym yn dal yn awyddus iawn i glywed oddi wrthyhch.

Roedd gennym ddigon o gyllid o'n grant CDL i greu cyfres o bosteri i'w hanfon i bob ysgol uwchradd yng Nghymru. Mae pob un yn agor â chwestiwn cyffredinol 'Beth oedd Menywod yng Nghymru yn ei Wneud yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf?' ac yna'n sôn am Nyrsio, y Lluoedd Arfog, y Ffatrioedd Arfau a Gartref ac ar y Tir a bydd fersiynau Saesneg a Chymraeg. Dengys ymchwil cychwynnol gan Catrin Stevens y dylent brofi'n boblogaidd iawn gan athrawon hanes. Gobeithiwn arddangos y rhain yng Nghynhadledd yr Hydref, lle byddwn yn lansio'r wefan yn swyddogol gyda phaned a chacen.

Ni fyddai'r gwaith hwn wedi bod yn bosibl heb gymorth llw o bobl, aelodau AMC ac eraill, nag heb grant hael Cronfa Dreftadaeth y Loteri. Diolch iddynt.

Diwrnod Rhyngwladol y Menywod ym Mhrifysgol Bangor 2016

Dathlwyd Diwrnod Rhyngwladol y Menywod ym Mhrifysgol Bangor eleni ar 12fed Mawrth. Cafodd ei drefnu gan Shan Ashton, Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes a'r cwrs MA Astudiaethau Menywod, mewn cydweithrediad â WEN Cymru.

Cafwyd ffair ddiwrnod-cyfan menter menywod a phwyntiau gwybodaeth gan Chwarae Teg; Gwaith Cymdeithasol Prifysgol Bangor, y Prif brosiect busnes ac arweiniad; Bawso; Cymorth i Fenywod; Y Brifysgol Agored a'r Soroptimyddion. Darparwyd taflenni AMC/WAW, ynghyd ag arddangosfa ar brosiect y Rhyfel Byd Cyntaf.

Dechreuodd y diwrnod gyda gweithdy yn cael ei redeg gan Krista Powell Edwards o Chwarae Teg, cyflwyniad ardderchog i'w diwrnod. Fe'i dilynwyd gan sgwrs ddifyr iawn gan Paola Dyboski, o Dr. Zig's Extraordinary Bubbles, a oedd â stori ysbrydoledig i'w hadrodd. I ddilyn cafwyd sgwrs ddwys gan Malan Wilkinson, a rannodd ei phrofiadau hi am anawsterau iechyd meddwl. Yna, dangosodd Rhian Huws Williams, Prif Weithredwraig Cyngor Gofal Cymru fideo fer am 'Gofalu yng Nghymru' a oedd yn emosiynol iawn ac eglurodd Rhian sut yr oedd yn gobeithio gwella gwasanaethau. Rhoddwyd pwyslais arbennig ar bwysigrwydd iaith fel elfen greiddiol mewn arfer dda yng Nghymru.

Defnyddiwyd amser cinio i gefnogi 'Dreigiau' y myfyrwyr, grŵp o godwyr hwyl a oedd wedi gwneud brechdanau, pastai a chacennau i'w gwerthu am gyfraniadau, ac roedd yn braf gweld eu menter.

Gyda'r nos, ym Mar y Teras, roedd dathliad o "Lleisiau – Voices". Y diddanwyr oedd SERA (cerddor /singer-songwriter); Rebecca Palin (Golden Fable); Sophie McKeand (Bardd y Brenin Ieuencid Cymru / Young People's Laureate for Wales); a Nesdi Jones (Cantores Bollywood Gymreig/Welsh Bollywood singer).

Rhwng popeth roedd yn ddiwrnod diddorol, adloniadol ac amrywiol o ddatlu.

Val Wakefield

Women gan Joe Bach

Gan gynnwys paneli glowyr 1951

Amgueddfa Abertawe

21 Mai - 10 Gorff. 2016. Mynediad am ddim

Arddangosfa o gelf gan Josef Herman, a ddetholwyd o gasgliad Sefydliad Celf Josef Herman a'i churadu gan yr artist lleol, Erin Rickard.



Mae Josef Herman yn enwog am ddarlunio gweithwyr - glowyr yn neilltuol. Tra bod y ffigyrau hyn yn thema ganolog yn ei waith nid dyna'r unig rai ganddo. Mae'r arddangosfa hon yn dathlu ei bortreadau o fenywod, sydd yr un mor gryf a llydan â'u cymheiriaid gwrywaidd, ond â chanddynt rinweddau tyner, ychwanegol.

Ar gyfer yr arddangosfa hon mae Erin Rickard wedi dwyn ynghyd yr hyn yr ystyria hi sy'n gipolwg tyner ar gynhesrwydd a sensitifrwydd natur yr artist. Pan gyrhaeddodd e Gymru yn 1944 croesawyd Josef yn gynnes gan Gymuned Gymreig Ystradgynlais, a chafodd y llysenw annwyl Joe Bach. Darlunnir menywod Joe Bach mewn dull anferth ac emosiynol agos, gan eu dathlu fel pileri'r gymuned, rhinwedd a goleddei Josef Herman. Os ydych chi yn Abertawe, peidiwch â cholli'r arddangosfa hon!

Jenny Sabine

19eg Cynhadledd Flynyddol Hydref 2016

Cynhelir y Gynhadledd eleni ym Mangor ar yr 8fed a'r 9fed Hydref. Y lleoliad fydd Ystafelloedd Cledwyn ym Mhrifysgol Bangor, ac mae rhai ystafelloedd wedi eu harchebu yng Nghanolfan Reolaeth yr Ysgol Fusnes (gweler y manylion isod). Mae rhaglen amrywiol a diddorol yn cael ei pharatoi! Bydd manylion archebu lle ar gael yn fuan.

Cysylltwch â'r Ganolfan Reolaeth, Ysgol Fusnes Bangor, Stryd y Coleg, Bangor, Gwynedd, LL57 2DG

Phone: +44 (0)1248 365 900 Ebost: info@themanagementcentre.co.uk

Croesewir cyfraniadau i'r Cylchlythyr gan bob aelod. Os gallwch chi gyflwyno'ch gwaith yn ddwyieithog byddem yn gwerthfawrogi hynny'n fawr. Anfonwch eich cyfraniadau o.g.y.dd. at:

newsletter@womensarchive.wales.org

Dyddiad cau ar gyfer y rhifyn nesaf:

Dydd Gwener 26ain Awst

Os hoffech gopi print bras o'r Cylchlythyr hwn, yn Gymraeg neu Saesneg, cysylltwch â Caroline ar ebost (cyfeiriad uchod) neu ar y ffôn: 01873 890540.


Golygwyd y Cylchlythyr hwn gan Caroline Fairclough, ac fe'i cyfieithwyd gan Catrin Stevens.

May Prosser, Gweithwraig mewn Ffatri Arfau Rhyfel - Munitionette

Mae dwy gofeb Rhyfel Byd Cyntaf pentref Gofilon, ger y Fenni, yn cofnodi, yn nhrefn yr wyddor, yr un dyn ar ddeg "from this Parish who laid down their lives for King and Country in the Great War", ac i ddilyn, yn anarferol, ceir enw un fenyw, May Prosser.




Mynediad i Gae Chwarae'r Brenin George V, Gofilon.



Plac coffa Eglwys Crist, Gofilon

Ganwyd May Prosser ar fferm Dyffryn-bach, Gilwern ar 19 Chwefror 1891, y bedwaredd ferch o ddeg o blant i Margaret (née Morris), brodor o Gwm-du, ger Crughywel, a Francis Prosser, gwas fferm o Swydd Henffordd. (cofnodir ei henw bedydd yn 'Mary' ar ei thystysgrifau geni a marw, er mai fel 'May' yr oedd pawb yn ei hadnabod). Wedi priodi yn 1875, bu ei rhieni yn byw yn eu tro yn Nhalgarth, Cwm-du a Gilwern, cyn setlo yn y pen draw yn Oak Cottage, Gofilon, tua 1902.

Erbyn blwyddyn cyfrifiad 1911, roedd May - bellach yn 20 oed – yn forwyn dŷ yn Rochdale, Sir Gaerhirfryn, gan ddilyn yn ôl traed dwy o'i chworydd hŷn, a oedd wedi mentro tua'r gogledd i weithio rai blynyddoedd ynghynt. Ddiwedd 1916, cymerodd May swydd mewn ffatri gwneud arfau rhyfel. Er bod un wedi agor yn Rochdale y flwyddyn honno fe ymddengys iddi weithio yn rhywle arall, efallai yn ffatri arfau White Lund, ym Morecambe, ryw drigain milltir i ffwrdd. Wedi bod yn gweithio yn gweini mewn tŷ am ddegawd, mewn swydd a olygai oriau hirion a chaledwaith heb fawr dâl a gwaseidd-dra – dichon iddi gael ei denu gan y cyflogau uwch a hefyd y gwmniaeth a'r annibyniaeth gymdeithasol ac economaidd a gynigiai gwaith ffatri o'r fath. Gall fod 'gwneud ei rhan' dros yr ymdrech ryfel, fe y gwnaethai aelodau eraill ei theulu fod yn gymhelliad hefyd – roedd brawd yn gwasanaethu yn y fyddin, chwaer yn gweithio mewn ffatri arfau yn Henffordd ac un arall yn gogydd i Gorfflu Atodol Byddin y



Menywod (WAAC).

Llafuriai 'munitionettes' (fel y gelwid gweithwragedd y diwydiant yn fynych) dan amodau afiach a pheryglus iawn, swydd a olygai risgiau posibl i'w bywydau - boed wenwyn, damwain neu ffrwydrad. Roedd May Prosser yn un o nifer a wenwynwyd. Er bod May Prosser wedi ei chyhoeddi'n ffit i ddechrau gweithio yn gwneud arfau yn gynnar

yn Nhachwedd 1916, o fewn pum mis roedd wedi marw. Clywodd y cwest gan ei chwaer hynaf, Margaret, nad oedd May, pan ddaeth i Rochdale dros y Nadolig yn ymddangos mor fywiog ag arfer. Pan aildechreuodd weithio, gwanychodd yn gyflym. Erbyn diwedd Ionawr, cafodd ddiagnosis o glefyd melyn gwenwynig ac aethpwyd â hi i'r ysbyty. Cafodd ei rhyddhau ymhen mis 'er nad wedi iacháu' - dychwelodd i Rochdale, lle daeth dan ofal Dr William Bateman, a sylweddolodd yn syth ei bod yn dioddef o anemia dinistriol, a bod ganddi symptomau gwenwyno. Treuliodd wythnosau olaf ei bywyd yng nghartref ei chwaer yn Rochdale, lle bu farw. Yno mae'n debyg y claddwyd hi.

Trigodd mam a thad May yng Ngofilon tan iddynt farw, gan fod yn ymwybodol bob amser i'w merch golli ei bywyd yn uniongyrchol oherwydd y rhyfel. 'Rhoddodd ei bywyd dros ei gwlad' meddai'r rhybudd o'i marwolaeth yn yr *Abergavenny Chronicle*. Flwyddyn yn ddiweddarach, roedd eitem yn y golofn 'In Memoriam' yn darllen: 'In Most Affectionate Remembrance of May, much-loved daughter of Francis and Margaret Prosser, Govilon, who died on April 3, 1917, from the effects of shell filling, aged 26'.

Wedi'r rhyfel roedd cymunedau ym mhob man yn angerddol dros goffáu am byth y rhai o'u cynefin a fu farw yn y gwrthdaro. Yng Ngofilon, penderfynodd cyfarfod cyhoeddus yn Chwefror 1919 mai Parc Hamdden ar gyfer y pentref fyddai'r gofeb fwyaf addas ac yn ystod y blynyddoedd nesaf gweithiodd pwyllgor yn galed i wireddu'r freuddwyd hon. Yn y cyfamser, yn Ebrill 1921, dadorchuddiwyd llechen garreg yn eglwys y plwyf, lle'r oedd Francis a Margaret Prosser yn addoli'n gyson. Mae'n bur debyg mai eu cyfeillgarwch clos gyda'r ficer a sicrhodd gynnwys enw May ar gofeb yr eglwys ac yna'r Rhestr Anrhydedd a arysgrifwyd ar bileri'r fynedfa i'r maes hamdden newydd ac i honno yn ddiweddarach yn y flwyddyn wneud dim ond mabwysiadau'r un rhestr enwau. Beth bynnag oedd yr union amgylchiadau, roedd yn glod i'r pentref na wnaethant anwybyddu hawl menyw na fu'n brwydro i gael ei chofio pan oeddent yn codi cofebion yn syth wedi'r rhyfel. Yn ystod y rhyfel bu cannoedd, ac efallai miloedd o fenywod farw oherwydd gwaith mewn ffatrioedd arfau, yn bennaf oherwydd ffrwydradau ond nifer sylweddol hefyd, yn sicr dros gant, o ganlyniad i wenwyno TNT. Ni chofnodir enwau'r mwyafrif ohonynt ar y cofebion rhyfel lleol. Ond fel y dadleuodd un fam o ogledd Cymru, roedd merched ifainc ... a oedd yn peryglu eu bywydau bob dydd mewn ffatrioedd arfau, yn trafod ffrwydron a sylweddau eraill peryglus, yn filwyr *go iawn*.

Ryland Wallace

[Diolch yn fawr i Caroline Fairclough o Archif Menywod Cymru / Women's Archive of Wales am dynnu fy sylw at 'Fforwm y Rhyfel Mawr' a chyfraniad 'Fychan' a roes y cyswllt hanfodol i Rochdale, gan fy ngalluogi i ddarganfod manylion bywyd May Prosser.]

Iris Owens

Roedd yn ddrwg gennym glywed am farwolaeth annhymig aelod o AMC ym mis Mai, Iris Owens o Ystrad Mynach. Cyfrannodd at y prosiect Lleisiau o Lawr y Ffatri, gan iddi weithio yn ffatri Currans, Caerdydd tra'r oedd hi'n fyfyrwraig. (VSE057; gelwir hefyd Iris Radley)

Archif Menywod Cymru yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy a'r Cyffiniau

Unwaith eto, mae'r Is-bwyllgor sy'n trefnu ein darlith flynyddol yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn gyffrous iawn wrth feddwl am y wledd fydd ger eich bron. Teitl y sesiwn eleni yw: 'Y Swffragetiaid, y Steddfod a Mwy!' Bydd Dr Ryland Wallace, sy'n arbenigwr ar hanes y mudiad rhyddfrenio menywod yng Nghymru yn trafod sut y bu i'r Swffragetiaid yn arbennig dargedu seremonïau'r Eisteddfod Genedlaethol i dynnu sylw at eu hachos, ac yna cawn sgwrs gan Dr Elin Jones (mewn cydweithrediad â'r Athro Angela V. John) am gyfraniad Arglwyddes Rhondda i'r achos hwn ... a llawer mwy. Bydd Dr Siân Rhiannon Williams yn cadeirio'r cyfarfod.

Dewch yn llw felly i Babell y Cymdeithasau 2 am 11.30 yb, ar Ddydd Gwener y 5ed Awst i glywed am y pwnc diddorol iawn hwn. Mae'r cyfarfod yn agored i bawb a darperir cyfieithu ar y pryd. Croeso!

Catrin Stevens